Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

GIG CYMRU NHS WALES

# Diweddariad am y brechlyn
# Vaccination Update






*Cylchlythyr Wythnosol* *Weekly Newsletter* CYHOEDDIAD 12: wythnos **06/04/2021**

## Cynnydd Wythnosol (29 Mawrth - 6 Ebrill)

**Gobeithio bod pawb wedi cael penwythnos y Pasg braf. Rydym bellach wedi rhoi 374,773 o frechlynnau (cyfuniad o'r dos cyntaf a'r ail ddos) ar draws ardal ein Bwrdd Iechyd - mae hyn yn golygu fod 9 allan o bob 10 oedolyn dros 50 oed wedi cael eu dos cyntaf o'r brechlyn! Mae hwn yn llwyddiant enfawr a hoffai'r Bwrdd Iechyd ddiolch i bawb am ddod i'w hapwyntiadau.**

Yr wythnos ddiwethaf dechreuom roi'r 2il ddos o'r brechlyn AstraZeneca. Bydd pobl sydd i fod i gael eu hail ddos yn dechrau cael llythyr apwyntiad dros yr wythnosau nesaf. Ffoniwch y rhif ffôn ar y llythyr apwyntiad os nad ydych yn gallu dod i'ch apwyntiad.

Mae pawb dros 50 oed a phob oedolyn sydd â chyflyrau iechyd sylfaenol wedi cael cynnig dos cyntaf o frechlyn Covid yng Nghymru.

O ganlyniad, o'r wythnos hon ymlaen, bydd y rhai yn y grŵp oedran 40-49 yn dechrau derbyn eu gwahoddiadau i gael y brechlyn..

## Apwyntiadau

**Dros 50 oed ac wedi methu eich apwyntiad?**
Os ydych yn 50 oed a hŷn ac wedi methu eich apwyntiad ar gyfer dos cyntaf COVID-19, llenwch y ffurflen ar ein gwefan: https://bipab.gig.cymru/coronafeirws/brechlyn-ar-gyfer-covid-19/yn-50-oed-ac-yn-hyn-a-heb-dderbyn-gwahoddiad-ich-hapwyntiad-brechlyn-covid-1. Gwnewch yn siŵr hefyd fod eich manylion gyda'ch meddyg teulu cofrestredig yn gyfredol fel bod gwahoddiadau yn cael eu hanfon i'r cyfeiriad cywir.



## Stori newyddion da

Fel arwydd o ewyllys da ac i ddiolch am yr holl waith caled, rhoddodd Gwesty'r Celtic Manor 500 o Wyau Pasg i'r staff sydd wedi bod yn gweithio yn ein Brechu Torfol a'n Canolfan Apwyntiadau ers i'r rhaglen ddechrau. Casglodd y fyddin yr wyau gan staff y gwesty ddydd Iau diwethaf a'u danfon i'r holl ganolfannau brechu perthnasol.

**Cyfanswm nifer y brechlynnau Covid-19 wedi eu rhoi ar draws ardal ein Bwrdd Iechyd (cyfuniad o'r dos cyntaf a'r ail ddos)**

**374,773**

**Cyfanswm y dos cyntaf 282,817**

**Cyfanswm yr ail ddos 91,956**
(hyd at 06/04/2021)

### FFIGYRAU BRECHU
(hyd at 06/04/2021)

| | |
|---|---|
| **Pobl 80 oed a'n hŷn** | 95.4% |
| **75-79 mlwydd oed** | 96.3% |
| **Pobl 70-74 mlwydd oed** | 96.1% |
| **Pobl 65-69 mlwydd oed** | 93.9% |
| **Grŵp 6 (Agored i Niwed)** | 85.3% |
| **Pobl 60-64 mlwydd oed** | 92.6% |
| **Pobl 55-59 mlwydd oed** | 90.1% |
| **Pobl 50-54 mlwydd oed** | 84.1% |

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

Diolch i chi am eich cefnogaeth barhaus.
*Gyda'n gilydd byddwn yn cadw Gwent yn ddiogel.*







## Os ydych chi wedi cael eich brechlyn

Mae'n cymryd amser i'ch corff ddatblygu amddiffyniad ar ôl unrhyw frechlyn.**Mae'n bwysig eich bod yn parhau i ddilyn yr holl ganllawiau diogelwch** i amddiffyn eich hun. Hyd yn hyn, nid ydym yn gwybod a fydd y brechlyn Covid-19 yn eich atal chi rhag cael eich heintio â'r feirws, a'i drosgwlyddo i eraill.

Am ragor o wybodaeth, ac i ganfod ym mha grŵp blaenoriaeth ydych chi, ewch i: https://www.gov.uk/government/publications/priority-groups-for-coronavirus-covid-19-vaccination-advice-from-the-jcvi-30-december-2020

Cyhoeddir ffigyrau brechu dyddiol gan Iechyd Cyhoeddus ar eu gwefan: https://public.tableau.com/profile/public.health.wales.health.protection#!/vizhome/RapidCOVID-19virology-Public/Headlinesummary

Mwy a wybodaeth a Chwestiynau Cyffredin ar ddarpariaeth, cymhwysedd a diogelwch y brechiad, ewch i: https://phw.nhs.wales/topics/immunisation-and-vaccines/covid-19-vaccination-information/about-the-vaccine/

## Trefn Brechlynnau

| | |
|---|---|
| 80 oed a hŷn | Meddygfeydd<br>Meddyg Teulu |
| 72-79 oed | Canolfannau Brechu Torfol |
| 70-71 oed | Meddygfeydd |
| Grŵp 4 | Meddygfeydd |
| 65-69 oed | Canolfannau Brechu Torfol |
| 60-64 oed | Canolfannau Brechu Torfol |
| 55-59 oed | Canolfannau Brechu Torfol |
| 52-54 oed | Canolfannau Brechu Torfol |
| 50-51 oed | Meddygfeydd |
| Yn Gaeth i'r Tŷ | Timau Symudol |
| Grŵp 6 | Meddygfeydd |

## Chwalu'r Myth #4

**Myth:** "Mae'r brechlyn yn cynnwys celloedd ffetws."

**FFAITH: Nid oes unrhyw frechlyn COVID-19 yn cynnwys celloedd o ffetysau a erthylwyd.**

Defnyddiwyd copi o linell celloedd ffetws a erthylwyd yn 1973 i brechlyn AstraZeneca Rhydychen. Fodd bynnag, nid yw'r brechlyn ei hun yn cynnwys unrhyw gelloedd ffetws.

Mae brechlynnau mRNA newydd, fel y rhai sy'n cael eu datblygu gan Pfizer a Moderna, yn frechlynnau synthetig, wedi'u dilyniannu ar gyfrifiadur mewn labordy, ac nid ydynt yn defnyddio llinellau celloedd ffetws wrth eu cynhyrchu.



Byddwn yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi, ond oherwydd nifer y ffactorau amrywiol, megis darparu'r brechlyn, gall cynlluniau a gyhoeddwyd newid

bipab.gig.cymru